# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-06-05)

Dyddiad y cyfarfod: 4 Hydref 2005
Amser y cyfarfod: 18:00 - 19:00
Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1

### Aelodau’r Cynulliad oedd yn Bresennol

| Aelod y Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther AC | Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a’r Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Alun Ffred Jones AC | Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| David Melding AC | Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) |
| Janet Davies AC | Archwilio |

### Swyddogion oedd yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil Aelodau a Phwyllgorau |
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Cyfathrebu’r Cynulliad (ACS) |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwyllgorau’r Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Adrian Green | Uwch Swyddog Gweithredol Seneddol, Swyddfa’r Llywydd |
| Roger Chaffey | Clerc Pwyllgor |

## Eitem 1: Nodyn o’r cyfarfod diwethaf ar 5 Gorffennaf 2005

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas AC a Sandy Mewies AC.

1.2 Cymeradwyodd y Panel gofnodion y cyfarfod diwethaf ar gyfer eu cyhoeddi.

Camau i’w Cymryd: yr Ysgrifenyddiaeth i roi’r cofnodion ar y Rhyngrwyd.

## Eitem 2: Materion yn codi

2.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o’r cyfarfodydd blaenorol.

## Eitem 3: Eitemau’r Cadeiryddion

3.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y sesiwn hyfforddi craffu a gafodd y Pwyllgor wedi bod yn fuddiol.

3.2 Cododd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bryderon fod yr wybodaeth am bresenoldeb yn y Pwyllgor fel y’i cyflwynir yn Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty yn gallu bod yn gamarweiniol gan nad oedd digon o fanylion ynddo am resymau am y peidio mynychu. Cytunodd y Panel y gallai’r ffigurau fod yn gamarweiniol ond doedd dim consensws ar p’un a ddylent barhau i gael eu cyhoeddi ar eu ffurf presennol ai peidio. Nodwyd y byddai Pwyllgor y Ty yn ystyried ei Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 20 Hydref.

3.3 Nododd Aelodau’r Panel eu bod yn fodlon gyda’r cynllun busnes ar gyfer ymweliad tramor arfaethedig y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes â Denmarc.

## Eitemau i'w Nodi

## Eitem 4: Sylw gan y Cyfryngau i Bwyllgorau

4.1 Nododd y Panel y sylw gan y cyfryngau i Bwyllgorau yn ystod Gorffennaf ac Awst.

4.2 Mynegodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ei siom gyda’r cyhoeddusrwydd a gafwyd i adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor, Cyrraedd Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu, a lansiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gweithredu: MRCS a’r ACS i ystyried y gwersi sydd i’w dysgu ar gyfer lawnsiau yn y dyfodol

## Eitem 5: Eitemau Arfaethedig ar gyfer yr Agenda am weddill cyfarfodydd tymor yr hydref

5.1 Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod ei phwyllgor hi wedi cael cyflwyniad gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ar gyfrifiad 2011 ac awgrymodd y byddai cyflwyniad tebyg yn berthnasol i Bwyllgorau Pwnc eraill.

5.2 Nododd y Panel yr agendau arfaethedig, gan gynnwys yr eitem ar Gyfrifiad 2011 ar agenda'r cyfarfod ar 1 Tachwedd.

## Eitemau i'w Trafod

## Eitem 6: Diweddariad ar y peilot e-ddemocratiaeth

6.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes bapur i'r Panel ar ganlyniad yr arfarniad o'r prosiect peilot e-Ddemocratiaeth APS.

6.2 Adroddodd y Cadeirydd fod y peilot yn gyffredinol wedi bod yn llwyddiannus ac y dylid ei ail-adrodd. Yr oedd wedi ymestyn yr ystod o gyfranwyr. Ychwanegodd fodd bynnag fod rhai problemau technegol wedi bod a rhai materion gyda golwg ar annog y mynediad gorau posibl iddo.

6.3 Nododd fod ymgynghoriadau o'r math yma angen cyfranwyr craidd a allai hyrwyddo deialog gyda chyfranwyr llai aml ac awgrymodd efallai y byddai wedi bod yn well bod wedi treialu'r Adolygiad Trafnidiaeth Ysgolion, gan y byddai plant eu hunain yn fwy tebygol o gyfrannu tuag ato.

6.4 Fe awgrymodd fod y cyhoeddusrwydd i ymgynghoriadau o'r fath angen eu hystyried ymhellach ac fod angen rhoi ystyriaeth i ddefnyddio gwefannau eraill ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd ymhlith cynulleidfa benodol.

6.5 Fe holodd aelodau'r Panel a oedd cofrestru â fforwm megis hwn yn angenrheidiol. Nodwyd mai cofrestriadau oedd y norm, ond y dylai gynnwys y sicrwydd na fyddai manylion cofrestru yn cael eu pasio i unrhyw ffynonellau eraill.

6.6 Cytunodd y Panel gyda'r argymhelliad yn y papur fod fforymau o'r fath yn parhau ac ar gael i'r holl Bwyllgorau a grwpiau eraill yn yr APS.

## Eitem 7: Argymhellion Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Monitro

7.1 Cytunodd y Panel ar yr argymhellion canlynol sydd wedi'u nodi ym mharagraff 15 o bapur 6:

- Dylai cyfanswm y nifer o argymhellion ymchwiliadau Pwyllgor gael eu cyfyngu a dylid

osgoi cynnwys argymhellion ‘meddal’/nad ydynt o ansawdd.

- Dylai argymhellion ymchwiliadau Pwyllgorau gael eu geirio a’u targedu’n gywir, a ble bo’n bosibl, bod yn 'SMART'.
- Dylai’r Gwasanaeth Pwyllgorau feddwl am ddatblygu cytundeb ffurfiol/anffurfiol gyda swyddogion er mwyn sicrhau mewnbwn i fformat ymatebion Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau ymchwiliadau Pwyllgorau.
- Wrth ystyried ymateb ysgrifenedig manwl y Gweinidog i adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor (pedwerydd cam protocol y Pwyllgor Busnes), dylai’r Cadeirydd geisio cytundeb yr Aelodau sut fydd monitro gweithredu argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor a’i nodi wrth y Pwyllgor. Wrth wneud hyn, fe all Pwyllgorau ddymuno penderfynu o’r set ganlynol o gamau:
- Eitemau agenda pwysig ar gyfnodau rheolaidd (os yn briodol dylech gynnwys y prif ddeiliaid diddordeb);
- Adroddiadau diweddaru rheolaidd yn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog;
- ‘Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithredu’ i gael ei ddosbarthu yn gyfnodol (fel sydd wedi’i fabwysiadu fel arfer safonol ar gyfer cyflwyno camau gweithredu yn dilyn cyfarfodydd pwyllgor);
- sefydlu is-Bwyllgorau/ Gweithgorau anffurfiol; a
- sefydlu grwpiau rapporteur (maent yn rhoi perchnogaeth i Aelodau).
- Dylai’r Canllaw Arferion Gorau ar gyfer Trin Adolygiadau Polisi gael eu newid i gynnwys adran ar fonitro gweithredu argymhellion ymchwiliadau Pwyllgorau.

## Eitem 8: Papur Gwyn: Gwell Trefn Lywodraethu i Gymru – Goblygiadau ar gyfer Pwyllgorau

8.1 Tynnodd y papur sylw at argymhellion oedd â goblygiadau posibl i bwyllgorau yn adroddiad y Pwyllgor Gwell Trefn Lywodraethu i Gymru.

8.2 Awgrymodd y Llywydd fod y Panel yn ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer strwythurau’r pwyllgor yn 2007 yn ei gyfarfod nesaf.

Camau i’w cymryd: Y Llywydd i wneud cyflwyniad llafar ar strwythurau posibl y pwyllgor yn 2007 yng nghyfarfod y Panel ar 1 Tachwedd.

## Eitem 9: Darlledu cyfarfodydd y tu allan i’r safle

9.1 Mynegodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad fel cyfranddaliwr yn Barcud Derwen, a’r Llywydd, y mae ei fab yn gweithio i Barcud Derwen, eu diddordebau a gwrthod cymryd rhan yn y drafodaeth.

9.2 Gofynnwyd i’r Panel wneud sylw ar y pedwar dewis a gyflwynwyd ar gyfer darlledu cyfarfodydd Pwyllgor allanol y Cynulliad yn y dyfodol. Y dewisiadau oedd:

- Cadw pethau fel y maent h.y. dim darllediad gweledol o gyfarfodydd allanol;
- Darllediad gweledol a chlywedol o holl gyfarfodydd Pwyllgor allanol;

- Darllediad gweledol a chlywedol o gyfarfodydd pwyllgorau pwnc (a sefydlog) – ond clywedol yn unig o bwyllgorau rhanbarthol;
- system ‘bidio’ tebyg i’r un a ddefnyddir gan San Steffan

9.3 Cefnogodd y Panel yr egwyddor o alluogi recordio clywedol a gweledol o holl bwyllgorau pwnc a phwyllgorau sefydlog allanol. Dywedodd Aelodau’r Panel, os oedd yn rhaid dewis y dylid ymgynghori gyda’r Cadeirydd yn ogystal â’r darlledwyr, ac y byddai dadansoddiad llawn o gostau a manteision yn cael ei wneud cyn bod penderfyniad terfynol yn digwydd ar yr opsiwn mwyaf ffafriol.

Camau i’w cymryd: Gwen Parry i gynnwys barnau’r Panel yn y papur y byddai Pwyllgor y Ty yn ei ystyried ym mis Tachwedd.

### Eitem 10: Adolygiad o Gylch Cyfarfodydd Pwyllgor

10.1 Penderfynodd y Panel ohirio ystyried y papur yn fanwl nes bod trafodaethau rhwng Rheolwyr Busnes wedi’u cwblhau.

10.2 Nododd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad fod y ffigurau yn y papur yn dangos fod canran isel o amser pwyllgorau yn cael ei dreulio ar hyn o bryd yn craffu ar ddeddfwriaeth.

### Eitem 11: Cofnodion Pwyllgorau

11.1 Ystyriodd y Panel y papur ar gynigion ar gyfer cymeradwyo cofnodion pwyllgorau o gofio fod cofnodion air am air o drafodion pwyllgorau bellach yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl gyfarfodydd ffurfiol.

11.2 Yr oedd rhai Aelodau o’r Panel yn credu fod cymeradwyo cofnodion bellach yn ddi-angen. Yr oedd eraill yn credu ei fod yn rhoi cyfle i ddychwelyd at faterion a godwyd mewn cyfarfodydd cynharach.

11.3 Cytunwyd fod y penderfyniad p’un ai fod cofnodion trafodion yn cael eu pasio’n ffurfiol mewn pwyllgorau yn cael ei adael i Gadeiryddion unigol.

### Eitem 12: Diweddariad ar Weithio ar y Cyd gyda’r Pwyllgor Materion Cymreig

12.1 Cadarnhaodd y Llywydd fod Rheol Sefydlog Ty’r Cyffredin ar weithio ar y cyd rhwng y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgorau’r Cynulliad wedi’i wneud yn barhaol.

### Eitem 13: Unrhyw fater arall

13.1 Nododd y Panel y papur ar y mynegyddion perfformiad APS ar gyfer Mehefin a Gorffennaf.

13.2 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a Phwyllgorau**
**Hydref 2005**